

Lle y gallaf gael rhagor o wybodaeth am ansawdd dŵr yfed?

Os hoffech ragor o wybodaeth am ansawdd dŵr yfed gallwch ei gael oddi wrth:

Cofnod cyhoeddus eich cwmni dŵr

Gallwch weld y cofnod yn un o swyddfeydd y cwmni. Bydd staff y Pwyllgor Gwasanaethau yn esbonio canlyniadau'r profion ac yn dweud wrthy'ch beth sy'n cael ei wneud i gywiro unrhyw fethiannau. Mae hawl gennych i gael copi rhad ac am ddim o'r cofnod ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw. Neu gallwch ysgrifennu at y cwmni am fanylion.

Eich awdurdod lleol

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr roi gwybodaeth i awdurdodau lleol am ansawdd y cyflenwad dŵr yn eu hardaloedd.

Ein Hadroddiadau Blynyddol

Mae'r rhain yn adroddiadau swmpus sy'n cynnwys llawer o wybodaeth fanwl am ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr. Gellir eu prynu o'r Llyfrfa. Efallai y bydd copi mewn prif lyfrgell neu yn swyddfeydd eich cwmni dŵr. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi taflen ddi-dâl bob blwyddyn yn rhoi canlyniadau monitro'r cwmni dŵr.

Taflenni di-dâl am

- Beth yr ydym yn ei wneud?
- Pa môr Dda yw'r Dŵr Yfed?
- Clorin, Arogl a Blas
- Dŵr â lliw arno
- Dŵr Caled
- Plwm mewn Dŵr Yfed
- Defnyddio sodr di-blwm ar gyfer ffitiadau dŵr yfed
- Cyflenwadau Dŵr Preifat
- Problemau gyda'ch Dŵr Yfed
- Adroddiadau Cryno'r ADY ar bob cwmni dŵr ar gael oddi wrthym ni.



Arolygiaeth Dŵr Yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed
Llawr 2/A1, Ashdown House
123 Victoria Street
Llundain SW1E 6DE

Ffôn: 020 7944 5956

Ffacs: 020 7944 5969

E-bost: dwi.enquiries@defra.gov.uk

Neu ar y rhyngwyd ar

<http://www.dwi.defra.gov.uk>

Cyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd,
Bwyd a Materion Gwledig.
Argraffwyd yn y DU Awst 2001 ar bapur yn cynnwys 75%
o ddeunydd ailgylchu a 25% o fwydion.
Cod Cynnyrch: 01EP0048W
Product Code: 01EP0048W
© Hawlfraint y goron Awst 2001

Arolygiaeth Dŵr Yfed

Dŵr Tap



O ble mae'n dod a sut y
caiff ei wneud yn ddiogel
i'w yfed?



gwarchodwyr ansawdd dŵr yfed
Arolygiaeth Dŵr Yfed

O ble mae fy nŵr tap yn dod?

Yng Nghymru a Lloegr, mae dwy ran o dair o ddŵr yfed yn dod o ddŵr arwyneb, gan gynnwys cronfeydd, llynnoedd ac afonydd, mae'r gweddill yn dod o ddŵr daear. Daw dŵr daear o ddyfrhaenau sef ffurfiannau daearegol tanddaearol sy'n storio dŵr glaw. Mae'r dŵr glaw yn diferu trwy haenau mandyllog megis tywodfeini a sialc. Mae cwmnïau dŵr yn tyllu ffynhonnau neu'n turio tyllau i mewn i'r dyfrhaenau gan dynnu dŵr allan ohonynt.

Cyflenwir dinasoedd mawr gan ddŵr arwyneb â chynhwysedd mwy, tra bod dŵr daear yn cyflenwi poblogaethau llai, er nad yw hyn yn digwydd bob tro. Mae yna ardaloedd sydd yn derbyn dŵr o gymysgedd o ffynonellau.


Caiff dŵr ei drin mewn gweithfeydd trin dŵr cyn iddo lifo trwy'r prif bibellau, weithiau dros gryn bellter, er mwyn cyrraedd eich cartref. Cymerir sampl yn ystod pob cam o'r driniaeth a'r dosbarthu, a'i brofi gan y cwmni dŵr i sicrhau eich bod yn derbyn dŵr o'r ansawdd gorau.

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd sydd yn cyflenwi defnyddwyr â dyfroedd daear a dyfroedd arwyneb ac i ba ganran.

Pam fod angen trin dŵr ffynhonnell?




Ni chaiff dŵr ei gymryd o ffynonellau sy'n llygredig iawn a thynnir dŵr ar gyfer ei yfed o ddŵr arwyneb a dŵr daear o'r ansawdd gorau yn unig. Ond mae'n rhaid i'r dŵr i gyd gael ei drin cyn iddo fod yn ddiogel i'w yfed. Gall difwynwyr ddod o amaethyddiaeth neu o ddiwydiant. Gallant gynnwys, er enghraifft, garthion elifiol wedi eu trin ac olion cemegion mewn ardaloedd amaethyddol. Caiff pob ffynhonnell ei diheintio er mwyn lladd germau, a elwir yn bathogenau yn wyddonol, a all fod wedi ymuno â'r ffynhonnell dŵr trwy wastraff dynol neu anifeiliaid.



O ble y daw fy nŵr tap?

Ffynonellau Dŵr yng Nghymru a Lloegr



Mae dŵr daear gan amlaf o ansawdd uwch na dŵr arwyneb. Fodd bynnag, gallant gynnwys olion o gemegolion amaethyddol a gall rhai gynnwys cemegolion gwenwynig sy'n ymddangos yn naturiol mewn ambell ddyfrhaen.

Mae dyfroedd llynnoedd mawr neu gronfeydd storio yn mynd trwy gam o bureiddio naturiol - mae ffactorau megis golau haul yn gymorth i ddileu pathogenau yn naturiol. Gan amlaf mae'r dyfroedd hyn yn cael eu cadw hyd at chwech mis cyn cael eu trin.

Sut caiff fy nŵr tap ei drin i'w wneud yn ddiogel i'w yfed?

Mae amrywiaeth eang o brosesau trin dŵr ar gael. Mae'r rhai hynny a ddefnyddir yn cael eu haddasu yn ôl ansawdd y ffynhonnell dŵr sydd angen ei drin. Ychydig iawn o driniaeth sydd angen ar ddŵr daear. Mae angen triniaeth mwy cynhwysfawr ar ddŵr afon er mwyn gallu cael gwared o lygrwyr cemegol. Mae angen diheintio pob ffynhonnell gyda chlorin i ladd pathogenau, gan gynnwys bacteria a firysau.


Triniaeth

Caiff y camau mwyaf cyffredin o driniaeth eu disgrifio'n gryno yma. Mae ambell gwmi dŵr yn cynnig ymweliadau tywysiedig o amgylch eu gweithfeydd trin dŵr ble gall ymwelwyr weld y prosesau. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch cwmni dŵr.

Tryloywi

Mae tryloywi yn broses gymhleth sy'n cael gwared o laid, algae, lliw, manganis neu alwminiwm a nifer o sylweddau eraill a allai fod yn bresennol yn y dŵr crai. Ychwanegir cemegyn o'r enw ceulydd, sydd gan amlaf yn halen haearn neu alwminiwm, i'r dŵr crai a fydd wedyn yn cyfuno'r deunydd sy'n rhaid ei waredu i ronynnau mwy. Cânt eu gwaredu trwy waddodi neu trwy ddefnyddio aer i'w cludo i'r wyneb (arnofio). Mae tryloywi hefyd yn cael gwared o tua 90 y cant o'r pathogenau o ddŵr crai.

Hidlo



Caiff unrhyw ronynnau sydd dros ben eu symud yn ystod y cam hidlo. Defnyddir hidlo i gael gwared o haearn a manganis o ffynonellau dŵr daear. Mae gwahanol fathau o hidlwyr, y mwyaf cyffredin ohonynt yw hidlwyr disgrychiant cyflym. Mae'r dŵr yn llifo trwy haenen o dywod neu gyfrwng priodol arall, lle mae'r

gronynnau yn cael eu dal. Ar ôl cyfnod o amser mae'r llif trwy'r hidlwr yn cildroi er mwyn glanhau'r tywod. Mae'n bwysig iawn symud cymaint o ronynnau ac sy'n bosib yn ystod y cam hidlo er mwyn i'r cam terfynol, diheintio, fod yn effeithiol.

Defnyddir pilenni mewn achosion arbennig, megis i symud ösystau *Cryptosporidium* (gweler cwestiwn dau yn yr adran 'cwestiynau a ofynnir fwyaf' ar gefn y daflen hon am fwy o wybodaeth ar *Cryptosporidium*).

Diheintio



Y dull mwyaf cyffredin o ddiheintio yn y wlad hon yw'r defnydd o glorin (ambell waith gallwch sylwi ar arogl clorin ar eich dŵr tap). Mae'n ddull sydd wedi ei ddefnyddio'n helaeth ers dros 70 mlynedd. Mae'r broses ddiheintio yn hanfodol i ddileu unrhyw facteria yn y dŵr. Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr sicrhau bod digon o glorin yn aros yn y dŵr ar ôl iddo adael y gweithfeydd trin dŵr er mwyn gwneud yn sicr bod y dŵr yn dal i fod yn ddiogel i'w yfed o'r tap.

Rhai diheintwyr eraill yw osôn a golau uwch fioled, ond nid yw rhain yn aros yn y dŵr yn ystod y broses ddosbarthu, felly yn y ddau achos ychwanegir ychydig bach o glorin cyn iddo gael ei ddosbarthu.

Mae clorin yn ymateb gyda ambell sylwedd organig naturiol sy'n bresennol yn y dŵr er mwyn cynhyrchu ychydig o gemegolion eraill, rhai ohonynt yn wenwynig. Gelwir rhain yn is-gynhyrchion diheintio (IGD). Fodd bynnag, mae'r peryglon sy'n gysylltiedig â IGD yn ddi-nôd o'u cymharu â manteision diheintio. Hebdo, byddai clefydon a gludir gan ddŵr megis colera, dysentri a teiffoid yn ail-sefydlu eu hunain yn gyflym. Mae taflen am ddim gan yr ADY o'r enw *Clorin, Arogl a Blas*.

Mae diheintio yn aneffeithiol yn erbyn arfilod megis *Cryptosporidium* a *Giardia* (a all achosi dolur rhydd difrifol sy'n para am wythnosau). Os oes perygl bod rhain yn bresennol mae'n rhaid cael gwared ohonynt yn ystod y broses hidlo.

Mae rhai dyfroedd yn gofyn am driniaeth mwy arbenigol, megis:

Cyfnewid ïonau


Defnyddir y broses hon i gael gwared o nitradau o ddŵr daear, ac mewn rhai achosion i feddalu dŵr. Mae cyfnewid ïonau yn debyg i'r broses a ddefnyddir mewn meddalyddion dŵr yn y cartref, lle bo'r dŵr yn llifo trwy haenen o ronynnau resin.

Carbon egnioledig ac osôn

Defnyddir carbon egnioledig, yn aml mewn perthynas gyda'r osôn, i gael gwared o sylweddau organig. Ymddengys rhai o'r rhain yn naturiol a'r gweddill yn ddifwynwyr sy'n ymddangos oherwydd gweithgareddau dyn, megis plaladdwyr. Mae'r osôn yn torri'r sylweddau organig i lawr sydd wedyn yn cael eu harsugno ar wyneb y carbon.

Dosbarthu

Pan fo dŵr yn gadael y gweithfeydd trin dŵr fe'i dosberthir i gartrefi defnyddwyr trwy rwydwaith o bibellau dosbarthu wedi eu gwneud o haearn bwrw, plastig neu sment.



Gall gwaddodion trin dŵr a chynnyrch rhydu o bibellau haearn bwrw setlo mewn manau sydd â llif dŵr isel o fewn y system ddosbarthu. Os caiff y dyddodion hyn eu haflonyddu, mae'n bur debyg y bydd defnyddwyr yn derbyn dŵr â lliw arno a all fod yn ddiflas ac yn annymunol. Gan hynny mae angen i gwmnïau dŵr reoli eu systemau dosbarthu trwy osgoi newidiadau cyflym yn y llif a thrwy lifolchi i waredu'r dyddodion. Mae'r sefyllfa wedi gwella mewn sawl adran dros y 10 mlynedd diwethaf diolch i raglenni adnewyddu mawr. Ar hyn o bryd mae cwmnïau wrthi'n buddsoddi miliynau o bunnoedd er mwyn ail-leinio ac ailosod eu systemau dosbarthu haearn bwrw. Mae taflen am ddim gan yr ADY o'r enw *Dŵr â Lliw Arno* sydd yn cynnig gwybodaeth bellach.

Safonau a phroffion ansawdd dŵr



Mae'r rheoliadau ansawdd dŵr yn gosod safonau cyfreithiol i ddŵr, sy'n rhaid eu cyrraedd gan gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn seiliedig ar gyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd, ond mae rhai o safonau y Deyrnas Unedig yn fwy llym. Mae nifer o'r safonau yn seiliedig ar ganllawiau Sefydliad Iechyd Byd ac yn cynnwys ffiniau diogelwch eang. Mae'r rheolau a'r safonau ar wefan y ADY ar www.dwi.gov.uk.

Mae'r tabl ar ddiwedd y daflen yn dangos y sylweddau y mae dŵr yn cael ei brofi amdanynt, a'r swm a ganiateir yn gyfreithiol.

Fel "gwarchodwyr ansawdd dŵr yfed", prif rôl yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw gorfodi'r rheolau a sicrhau bod cwmnïau dŵr Cymru a Lloegr yn cyflenwi dŵr sydd yn ddiogel i'w yfed ac sy'n cyrraedd y safonau a osodwyd gan y rheoliadau. Mae taflen am ddim gan yr ADY o'r enw *Beth ydym ni'n gwneud? sy'n cynnig gwybodaeth bellach.*



Cwestiynau a ofynnir fwyaf

- C** *Nid wyf yn hoffi blas y clorin yn fy nŵr. Beth a allaf ei wneud?*

A Weithiau gallwch sylwi ar arogl neu blas clorin. Gosodwch jwg o ddŵr wedi ei orchuddio yn y rhewgell hyd nes ei fod yn oer. Yna bydd yn iawn i'w yfed, ond cofiwch ddefnyddio'r dŵr o fewn 24 awr.
- C** *A yw clorin yn lladd bacteria a heintiau megis Cryptosporidium?*

A Mae diheintwyr yn lladd bacteria mewn dŵr. Ond nid yw'n lladd *Cryptosporidium*, sef creadur bach a ddarganfyddir mewn dyn a sawl anifail arall. Gall achosi clefyd o'r enw cryptosporidiosis, sef dolur rhydd sy'n para am oddeutu pythefnos. Gall dŵr sydd heb ei hidlo'n briodol gynnwys nifer o ösystiaid *Cryptosporidium* sy'n achosi'r salwch. Mae'r rheoliadau newydd yn gofyn i gwmnïoedd dŵr samplo a dadansoddi eu dŵr am *Cryptosporidium* ar raddfa ddyddiol. Mae'n drosedd i'r cwmni dŵr dorri y rheol safon trin dŵr hwn. Bydd yr ADY yn parhau i sicrhau bod y rheoliadau yn cael eu dilyn.
- C** *Pam bod y dŵr weithiau yn edrych yn gymylog pan y mae'n dod o'r tap.*

A Gall dŵr fod yn gymylog o ganlyniad i sialc neu ormod o aer. Mae dŵr cymylog a achoswyd gan ormod o aer yn clirio o'r gwaelod i fyny pan mewn gwydr, ac nid yw'n rhywbeth i boeni yn ei gylch. Nid yw sialc yn niweidiol ond gall fod yn gysylltiedig â gwaddodion eraill a dylech gysylltu gyda'ch cwmni dŵr.

- C** *A oes unrhyw nitradau neu blaladdwyr mewn dŵr tap?*

A Mae nitradau yn dod o wrtheithwyr a ocsidiad carthion elifol. Gall gormod o nitrad fod yn niweidiol i fabanod ifanc (gall achosi symptomau o "syndrom y baban glas"). Mae'r safon ar gyfer nitrad wedi ei osod er mwyn osgoi hyn, ac nid oes achos wedi ei gofnodi ers 1972. Pan fo angen, mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr leihau eu lefelau nitrad mewn dŵr yfed. Daw plaladdwyr o'r defnydd a wneir ohonynt gan ffermwyr, garddwyr, awdurdodau rheilffyrdd a priffyrdd. Mae'r safon ar gyfer plaladdwyr unigol yn llym iawn. Ble bo angen, mae cwmnïau dŵr wedi sefydlu triniaeth ychwanegol ac o ganlyniad, mae plaladdwyr bron a chael eu dileu o ddŵr yfed.
- C** *A yw dŵr gwastraff yn cael ei ailgylchu er mwyn cynhyrchu dŵr tap?*

A Ni chaiff dŵr gwastraff ei drin a'i droi'n uniongyrchol i mewn i ddŵr yfed. Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr drin dŵr gwastraff i safon derbynol cyn gall yr elifiant gael ei ddychwelyd i'n dyfroedd naturiol. Cymerir swm y gwahad i mewn i ystyriaeth ac mae hyn yn sicrhau bod y dŵr crai a dynnir ar gyfer ei yfed yn ddigon glân i'w drin a'i ddiheintio ar gyfer dosbarthu. Mae'r ateb i'r cwestiwn nesaf yn ymhelaethu ar y maes yma.
- C** *A yw hi'n wir y gallai cyffwrdd gwaddodol fod mewn dŵr tap?*

A Mae pryderon wedi eu mynegi ynghylch gwaddodion o fferyllon mewn dŵr yfed yn ogystal â dosbarthwyr endocrin. Cemegion a ysgarthir gan bobl yw rhain. Mewn crynadau uchel maent yn gallu annog nodweddion benywaidd mewn anifeiliaid gwrywaidd. Yn gyffredinol, os yw un yn rhagdybio bod fferyllon yn ysgarthu'n ddinewid ac yn ailgylchu trwy ddŵr tap, byddai'r dŵs ddamcaniaethol oddeutu 1 miliwn gwaith yn llai na'r dŵs ffarmacolegol gweithredol. Mae'r dŵs gwirioneddol yn llawer llai na hyn oherwydd bod yr holl garthion elifol yn rhwym wrth driniaeth biolegol dwys cyn cael eu dadlwytho i'r dyfrffosydd. Mae'r driniaeth hon yn gwaredu sylweddau organig ac yn lleihau potensial llygru'r elifiant. Mae mwy o bydr yn digwydd yn yr afonydd a'r cronfeydd ac y mae carthion elifol wedi eu trin yn cael effaith bach iawn ar ansawdd y dŵr ar y cyfan. Mae prosesau triniaeth soffistigedig, megis osôn neu carbon egnïoledig a ddefnyddir i gynhyrchu dŵr yfed, yn parhau i leihau crynadau gwaddodion cemegol i lefelau dinod.

7. **C** *A ddyliwn ddefnyddio hidlwr dŵr?*

A Mae hidlwyr dŵr yn ddianghenraid. Fodd bynnag, os ydych yn penderfynu defnyddio hidlwr, mae'n rhaid i chi ddilyn cyfarwyddiadau y gwneuthurwr yn ofalus, bydd methiant i wneud hynny yn eich rhoi mewn perygl yn ogystal â rhoi blas ac arogl i'r dŵr.

8. **C** *Mae'r dŵr a gyflenwir i fy ardal i yn weddol galed. A ddyliwn ddefnyddio meddalwr dŵr?*

A Mae hyn yn fater o ddewis personol. Fodd bynnag, gall meddalydd leihau problemau pobl sydd efo problemau croen a gall leihau cennu mewn systemau dŵr poeth. Os yw meddalydd yn cael ei osod, mae'n rhaid sicrhau bod cyflenwad o ddŵr nas meddalwyd ar gael ar gyfer yfed a choginio. Mae taflen am ddim gan yr ADY o'r enw Dŵr Caled sy'n cynnig cyngor pellach.

9. **C** *A ddyliwn i yfed dŵr potel?*

A Mater i'r defnyddiwr yw hyn. Fodd bynnag, mae dŵr tap yn ddiogel i'w yfed ac mae profion blasu dall wedi dangos na all defnyddwyr wahaniaethu rhwng dŵr tap oer a dŵr potel.

10. **C** *A ddylwn i yfed o'r tapiau yn fy ystafell ymolchi?*

A Gallwch yfed o dap dŵr oer eich ystafell ymolchi dim ond os yw'r dŵr yn dod yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad. Fel arall, dylech wastad ddefnyddio dŵr o dap dŵr oer y gegin. Gall y dŵr oer yn eich ystafell ymolchi ddod o gyflenwad y tanc storio yn y llofft felly ni fydd yr ansawdd mor dda ag ansawdd tap y gegin sy'n dod yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad. Peidiwch ac yfed dŵr o'r tapiau dŵr poeth oherwydd gall gynnwys lefelau uchel o gopr.

11. **C** *Rwyf newydd symud i hen dŷ gyda phibellau plwm. A ddylwn gael y pibellau wedi eu ailosod?*

A Gall tai a adeiladwyd cyn 1970 fod â phibellau plwm. Dylech geisio lleihau datguddiad i blwm bob amser. Mae babanod a phlant yn enwedig mewn perygl. Dengys astudiaethau y gall plwm gael effaith ar eu datblygiad meddyliol. Gallwch ofyn i'ch cwmni dŵr gymryd sampl a rhoi'r canlyniadau i chi. Byddant hefyd yn cynnig cyngor os yw safon y plwm yn ormod. Os oes gennych bibellau plwm, mae'n well peidio ag yfed dŵr sydd wedi bod yn sefyll dros nos neu am sawl awr

yn y pibellau. Yn hytrach, llenwch bowlen golchi llestri â dŵr tap y gegin (a'i ddefnyddio i ddyfrio'r ardd er enghraifft), ar ôl hynny gellid defnyddio'r dŵr. Yr ateb gorau yw ailosod y pibellau gyda rhai copr neu blastig. Unwaith mae'r pibellau wedi cael eu ailosod, gallwch ofyn i'r cwmni dŵr ail osod unrhyw bibellau plwm sy'n arwain at eich eiddo. Mae taflen am ddim ar gael gan yr ADY o'r enw *Plwm mewn Dŵr Yfed?* - A oes pibellau plwm gennych chi? sy'n cynnig mwy o wybodaeth.

12. **C** *Pam ei bod hi'n angenrheidiol i ddefnyddio sodorau di-blwm pan yn gosod pibellau dŵr yfed?*

A Mae'r Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Gosodiadau Dŵr) yn gwahardd y defnydd o sodorau plwm oherwydd gall achosi i lefelau plwm gynyddu yn fwy na'r safon plwm a ganiateir ar gyfer dŵr yfed. Gall hyn fod yn niweidiol i iechyd, yn enwedig i fabanod a phlant. Dylid defnyddio sodorau di-blwm yn unig. Mae'n hanfodol mai'r swm lleiaf o lif a sodorau a ddefnyddir, yna ar ôl soldro, bod pob ôl o'r llif wedi ei lifolchi er mwyn osgoi rhydu a all ddifwyno'r dŵr. Mae taflen am ddim ar gael gan y ADY o'r enw Defnydd Sodorau Di-blwm mewn Gosodiadau Cyflenwad Dŵr sy'n cynnig mwy o wybodaeth.

13. **C** *Os rwy'n cael anhawster gyda ansawdd fy nŵr tap, â phwy y dylwn gysylltu?*

A Yn yr achos cyntaf dylech gysylltu gyda'ch cwmni dŵr ac adrodd y broblem ansawdd dŵr iddynt. Os ydych yn teimlo nad yw'r broblem wedi ei datrys gan y cwmni dŵr, cysylltwch â'r ADY ac fe wnawn ni ymchwilio ymhellach i'r mater. Gallwch hefyd gysylltu â Phwyllgor Gwasanaethau Cwsmeriaid OFWAT eich ardal sy'n delio â chwynion cwsmeriaid.

14. **C** *A yw staff ADY yn yfed dŵr tap?*

A Ydynt. Mae uned oeri yn y swyddfa sy'n gwneud y dŵr yfed yn bleserus iawn i'w yfed. Bydd y Prif Arolygydd yn tystio i hyn! Mae dŵr tap yn iach, nid yw'n cynnwys dim colestrol, dim braster na choloriau a dylid ei yfed yn aml i atal y corff rhag colli dŵr. Mae arbenigwyr meddygol wedi argymhell y dylai oedolion yfed dwy litr (wyth gwydr) o ddŵr pob dydd a dylai plant yfed oddeutu hanner hynny.

Sylwedd	Disgrifiad	Safon
Paramedrau microbiolegol		Swm a ganiateir.
Coliformau ysgarthol, streptococci ysgarthol, mherffedion anifeiliaid byw. Mae eu presenoldeb mewn cyflenwad dŵr yn dangos bod angen gweithredu'n syth er mwyn symud ffynhonnell y llygredd ysgarthol. Caiff pob un eu samplu a'u profi'n unigol. Rheolir rhifau coliformau trwy ddiheintio'r dŵr.	Mae coliformau ysgarthol, streptococci ysgarthol, perffringennau clostridiwm	0 i bob 100ml
Cyfanswm y coliformau	Dosberthir grwp coliformau'r organeddau yn eang i mewn i'r amgylchedd, er engraifft trwy sylwedd llysteuol. Mae eu presenoldeb mewn cyflenwad dŵr yn dangos bod angen ymchwilio ffynhonnell y difwyniant. Rheolir rhifau coliformau trwy ddiheintio'r dŵr.	0 i bob 100ml
Paramedrau cemegol		Y swm a ganiateir
Alcalinedd	Mae crynodiad y paramedr hwn yn dangos caledwch naturiol a pH dŵr.	Dim safon
Alwminiwm	Ymddengys yn naturiol mewn ambell ffynhonnell dŵr. Defnyddir alwminiwm sylffad fel cemegyn triniaeth dŵr i gael gwared o gymylogrwydd. Caiff ei waredu yn ystod y broses trin dŵr (prosesau ceulad a hidlo).	200 µg/l
Amoniwm	Mae ôl ychydig o halen amoniwm yn bresennol yn naturiol yn rhan fwyaf o ffynonellau dŵr. Cânt eu dadelfennu yn naturiol yn ystod y broses ddiheintio.	0.5 mg/l
Antimoni	Mae antimoni yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr. Gall olion crynhoad mewn dŵr yfed ddeillio o osodiadau pres a sodorau, ond nid yw o unrhyw arwyddocad i iechyd.	10 µg/l
Arian	Nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr na dŵr yfed ychwaith heblaw bod arian yn cael ei ddefnyddio fel cemegyn triniaeth; nid yw hyn yn digwydd yng Nghymru.	10 µg/l
Arian Byw	Mae arian byw yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr na dŵr yfed.	1 µg/l
Arogl a bias ansoddol	Ymddengys arogl a bias yn naturiol, yn enwedig mewn ffynonellau dŵr arwyneb yn ystod yr haf. Cânt eu gwaredu yn ystod y broses trin dŵr (carbon egioledig ac osôn). Cânt eu samplu a'u profi'n unigol.	Dim safon
Arogl a bias meintiol	Mesur arogl a bias mewn dŵr. Cânt eu samplu a'u profi yn unigol a'u gwaredu yn ystod y broses trin dŵr a ddisgrifir uchod.	Rhif Gwanhad o 3 ar 25°C
Arsenig	Mae olion ohono yn bresennol yn naturiol mewn ychydig iawn o ffynonellau dŵr daear. Mae arsenig yn wenwynig a phan fo'n bresennol caiff ei waredu gan brosesau trin dŵr arbenigol.	50 µg/l
Bariwm	Ymddengys yn naturiol mewn crynoadau bychan o ambell ffynhonnell dŵr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	1000 µg/l
Boron	Daw boron mewn ffynonellau dŵr o waddodion formiwleiddiadau diheintio sy'n bresennol mewn dŵr ond sydd ddim yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	2000 µg/l
Cadmiwm	Mae cadmiwm yn wenwynig ac mae ôl ychydig ohono yn bresennol mewn ffynonellau dŵr daear. Pan fo'n bresennol caiff ei waredu gan brosesau trin dŵr arbenigol.	5 µg/l
Calsiwm	Ymddengys yn naturiol ym mhob ffynhonnell dŵr ac ynghyd â magnesiwm mae'n gyfrifol am galedwch dŵr sy'n achosi cen mewn tegelli a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	250 mg/l
Clorid	Mewn perthynas â sodiwm, mae'n ymddangos yn naturiol fel halen gwan ym mhob ffynhonnell dŵr a ni chaff ei symud yn ystod y broses trin dŵr. Nid yw'r crynhoad sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	400 mg/l
Clorin	Defnyddir gas clorin fel diheintiwyr mewn triniaeth dŵr. Mae'n dinistrio bacteria sy'n deillio o wastraif anifeiliaid a charthion elfifol.	Dim safon
Copor	Ymddengys olion naturiol o gopur mewn sawl ffynhonnell dŵr ond nid yw'n cyflwyno perygl i iechyd. Gall crynoadau sylweddol ymddangos yn nhapiau y defnyddwyr o gamlyniad i bibellau copor. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	3000 µg/l
Cromiwm	Nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr ac nid yw'n bresennol mewn dŵr yfed chwaith.	50 µg/l
Cyfanswm carbon organig (CCO)	Mae CCO yn cynrychioli cyfanswm y sylweddau organig naturiol sy'n bresennol yn y dŵr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd	Dim cynnydd arwyddocaol
Cyfanswm y caledwch	Mae hyn yn cynrychioli crynodiad calsiwm a magnesiwm sydd i'w cael yn naturiol mewn dŵr ffynhonnell. Gall dŵr caled fagu ffurfiant cen mewn tegelli a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol yn y dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	Dim safon
Cyfanswm y sylweddau sych	Dyma fesur o'r mineralau naturiol a geir mewn dŵr.	1500 mg/l
Cymylogrwydd	Mae pob ffynhonnell yn naturiol gymylog ambell waith. Mesur meintiol ar pa mor gymylog yw'r dŵr yw cymylogrwydd ac fe reolir y lefelau yn ystod y broses trin.	4 Formazin Unedau Cymylogrwydd
Dargludedd	Mesur swm o sylweddau toddedig naturiol mewn ffynhonnell dŵr yw dargludedd electronig. Fe'i defnyddir i helpu rheoli triniaeth.	1500 µS/cm
Fflworid	Ymddengys olion fflworid yn naturiol mewn sawl ffynhonnell dŵr, yn enwedig dŵr'r daear. Ni chaff ei symud yn ystod triniaeth dŵr'r cyffredin ac mae rhai cwmnïau dŵr yn fflworideiddio eu cyflenwad dŵr yn artiffisial fel fordd o amddiffyn yn erbyn ydyredd dannedd. Gweler gwefan yr ADY am fwy o wybodaeth ar fflworideiddiad mewn dŵr'r yfed.	1500 µg/l

Sylwedd Disgrifiad Safon

Ffosforws	Ymddengys olion naturiol o halen ffosforws mewn amryw ffynhonnell dŵr a chaiff crynoadau uchel eu cysylltu â charthion elfiol wedi eu trin a gwrteithwyr amaethyddol. Defnyddir ffosffad helyd wrth drin dŵr, fel mesur i amddiffyn iechyd i leihau lefel plwm a all ddod o bibellau defnyddwyr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol yn y dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	2200 µg/l
Gwlychwy'r	Daw gwlychwy'r mewn ffynonellau dŵr o waddodion fformiweiddiadau glanhâwy'r sy'n bresennol mewn carthion elfiol wedi eu trin. Cânt eu gwaredu yn ystod triniaeth.	200 µg/l
Haearn	Yn bresennol yn naturiol mewn sawl ffynhonnell dŵr a chaiff ei waredu yn ystod y brosesau trin dŵr. Gall cyflenwad o haearn mewn dŵr hetyd ddeillio o rwd mewn prif bibellau haearn. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	200 µg/l
Lliw	Ymddengys lliw yn naturiol mewn dŵr o ffynonellau ucheldir. Caiff lliw ei waredu yn ystod y broses trin dŵr (ceulad a hidlo).	20 mg/l
Magnesiwm	Ymddengys yn naturiol ym mhob ffynhonnell dŵr ac ynghyd â chalsiwm mae'n gyfrifol am galedwch dŵr sy'n achosi cen mewn tegelli a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	50 mg/l
Manganis	Yn bresennol yn naturiol mewn sawl ffynhonnell dŵr a chaiff ei waredu yn ystod triniaeth dŵr.	50 µg/l
Nicel	Ni ddarganfyddir nicel mewn ffynonellau dŵr ond mae ôl ychydig ohono mewn dŵr yfed, yn deillio o orchudd ar dapiau a gosodiadau, ond nid yw'n cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	50 µg/l
Nitrad	Yn bresennol yn naturiol ym mhob ffynhonnell dŵr, er gall crynhoad uwch gael ei achosi gan ddefnydd o wrteithwyr. Ble bo angen fe leihwir lefelau nitrad yn ystod triniaeth dŵr (cyfnewid ion neu cymysgu gyda dŵr nitrad isel). Gweler gwefan yr ADY am fwy o wybodaeth ar oblygiadau iechyd a mesurau rheoli.	50 mg/l
Nitraid	Cynhyrchir olion o nitraid pan ddefnyddir clorin ac amonia yn y broses diheintio. Caiff lefelau eu lleihau trwy weithredu gofalus yn ystod y broses ddiheintio. Gweler gwefan yr ADY am fwy o wybodaeth (o dan "nitraid").	0.1 mg/l
Ocsigeiddiad	Mae ocsigeiddiad dŵr yn darparu mesur o'r cynnwys organig ynddo. Mae hwn yn ddull gwahanol i CCO.	5 mg/l
PAH	Mae hydrocarbonau polysyclicig aromatig yn bresennol mewn leiniau col-tar a ddefnyddiwyd i amddiffyn prif bibellau dŵr cyn 1970. Mae olion o PAH, ar grynoadau nad yw'n arwyddocaol i iechyd, yn bresennol mewn dŵr lap os yw'r lein co-tar gwreiddiol yn dal yno.	0.2 µg/l
pH	Gall gwerth isel wneud i bibellau rydu. Gellir ychwanegu alcali, nad yw'n niweidiol i iechyd, cyn cyflenwi er mwyn lleihau rhydu.	10 ng/l
Platladdwyr	Mae nifer o ffynonellau dŵr yn cynnwys olion o waddodion platladdwyr gwenwynig o ganlyniad i ddefnydd gan ffermwyr, garddwyr, awdurdodau rheilffyrdd a priffyrdd o blatladdwyr ar gnydau, a rheolwyr chwyn. Lle bo angen, mae cwmnïau dŵr wedi sefydlu prosesau trin dŵr arbennig i amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy gael gwared o blatladdwyr (prosesau carbon egnoledig a osôn). Gweler gwefan y ADY am fwy o wybodaeth ar gael gwared o blatladdwyr.	0.1 µg/l
Plwm	Nid yw'n bresennol fel rheol mewn ffynonellau dŵr, ond gall fod yn bresennol mewn tapiau defnyddwyr os oes pibellau plwm ganddynt. Os yw'r cyflenwad dŵr yn dueddol o doddi plwm, mae'n rhaid i gwmnïoedd dŵr amddiffyn iechyd y defnyddwyr trwy drin y dŵr er mwyn lleihau datguddiad.	50 µg/l
Potasiwm	Ymddengys yn naturiol ym mhob ffynhonnell dŵr a ni chaiff ei symud yn ystod y broses trin dŵr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	12 mg/l
Seleniwm	Mae seleniwm yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr na dŵr yfed ychwaith.	10 µg/l
Sinc	Darganfyddir crynoadau sylweddol o sinc ar safleoedd sydd â pibellau haearn sinc yn unig. Gall olion o sinc nad yw'n arwyddocaol i iechyd ddeillio o sododrau.	5000 µg/l
Sodiwm	Ymddengys yn naturiol mewn perthynas â chlorid fel halen gwan iawn ym mhob ffynhonnell dŵr ac ni chaiff ei waredu yn ystod triniaeth dŵr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol mewn dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	150 mg/l
Syanid	Mae syanid yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr. Nid yw i'w gael mewn dŵr yfed.	50 µg/l
Syllfad	Yn ymddangos yn naturiol ym mhob ffynhonnell dŵr ac ni chaiff ei waredu yn ystod y broses trin dŵr. Nid yw'r crynoadau sy'n bresennol yn y dŵr yn cyflwyno unrhyw berygl i iechyd.	250 mg/l
Tetrachloroethan	Gall y toddyddion hyn fod yn bresennol â chrynodedd isel mewn dŵr daear o dan ardaloedd diwydiannol. Lle bo angen, defnyddir triniaeth arbenigol i amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy	10 µg/l
Tetrachloromethan	waredu y toddyddion o ddŵr yfed.	3 µg/l
Trichlorethan		30 µg/l
Trihalomethan (THM)	Ffurir THM yn ystod y broses ddiheintio trwy ymateb rhwng clorin a sylweddau organig sy'n ymddangos yn naturiol. Rheolir y prosesau i leihau eu cynhyrchu. Gweler gwefan yr ADY am fwy o wybodaeth ar rheolaeth THM.	100 µg/l
Tymheredd	Mae tymheredd dŵr arwyneb yn amrywio yn ôl y tymor. Mae amrediad tymheredd llai amrywiol gan ddŵr daear.	25°C